# Panobinostat ar gyfer trin myeloma ymledol ar ôl o leiaf 2 driniaeth flaenorol

Ionawr 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Dim ond os yw'r canlynol yn gymwys yr argymhellir panobinostat (Farydak), a roddir gyda chyffuriau o'r enw bortezomib a dexamethasone, fel triniaeth bosib i bobl sydd â myeloma ymledol:

- nid yw eu hafiechyd wedi ymateb i therapi, neu wedi ymateb ond yna wedi gwaethygu
- maent wedi cael o leiaf 2 driniaeth arall yn cynnwys bortezomib a chyffur imiwno-gyweiriadurol.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os oes gennych myeloma ymledol, a bod eich meddyg o'r farn mai panobinostat yw’r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai panobinostat fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Argymhellwyd panobinostat oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau ei gost.

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

## Y cyflwr a'r driniaeth (triniaethau)

Mae myeloma lluosog yn fath o ganser sy'n effeithio ar gelloedd yn y mêr esgyrn. Gall symptomau gynnwys poen esgyrn, torri esgyrn, anemia, diffyg archwaeth am fwyd, gwaedu eithafol ar ôl cytiau neu grafiadau, a heintiau mynych.

Pan gaiff ei rhoi gyda chyffuriau o'r enw bortezomib a dexamethasone, mae panobinostat yn helpu i atal celloedd normal rhag newid i mewn i gelloedd canser.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Myeloma y DU, 0800 980 3332 www.myeloma.org.uk
- Gofal Lewcemia, 08088 010 444 www.leukaemiacare.org.uk
- Bloodwise, 0207 504 2200 www.bloodwise.org.uk
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040 www.cancerresearchuk.org/about-cancer
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000 www.macmillan.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1801-0